**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10:30AM AR 22 MAWRTH 2023 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd); Mr Michael Imperato; Mrs Dianne Bevan; Mr Frank Cuthbert.

**Swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) a oedd yn bresennol:** Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Pennaeth Busnes); Miss Carys Vaughan (Swyddog Arolygon); Miss Caitlin Lowry (Swyddog Cymorth Tîm); Mr Christian Lovatt (Swyddog Cymorth Tîm).

**Ymddiheuriadau:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr)

**Amser Dechrau: 10:34**
**Amser Gorffen: 11:20**

## 1. Datganiadau Buddiannau

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

## 2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i'r Comisiwn am y cyfarfod a gynhaliwyd ddoe gyda Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LlC):

- Trafodwyd cynnydd ar y Papur Gwyn ac mae sylwadau o'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried. Bydd datganiad cyffredinol y Cyngor yn cael ei ryddhau cyn y Pasg.
- **Nodwyd** nad oedd unrhyw wrthwynebiadau i gyfuno'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol (IRP) a'r Comisiwn. Roedd ambell sylw negyddol a oedd yn deillio o gamddealltwriaeth a chydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr yn gyffredinol.
- Mae'r broses o recriwtio i Fwrdd yr IRP a'r Comisiwn yn mynd rhagddi. Mae 2 ymgeisydd wedi cael eu cynnig i'r Gweinidog i fod yn Aelodau o Fwrdd y Comisiwn. **Nodwyd** er bod yr ail ymgeisydd wedi sgorio'n is yn y cyfweliad, bod y Cadeirydd o'r farn y byddai'r ymgeisydd o fudd i'r bwrdd ac y byddai'n darparu sgiliau hollbwysig yn ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r Cadeirydd wedi gofyn i Lisa a oes posibilrwydd o gael swydd Comisiynydd Cynorthwyol.

**Cytunodd** y Comisiwn y byddai swydd Comisiynydd Cynorthwyol yn fuddiol ac y byddai'n darparu capasiti ac adnoddau ychwanegol.

- Mae'r IRP wedi cymeradwyo un tendr er mwyn i'r Comisiwn weithio ar strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ac adolygu ei wefan bresennol. Bydd y gwaith yn cael ei wneud gan y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2023**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2023 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

**4. Materion yn Codi**

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1) –** Cafodd y Comisiwn 3 chais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 11 Ionawr 2023 a 13 Mawrth 2023. Mae dau o'r ceisiadau wedi cael eu cwblhau ac mae'r trydydd wrthi'n cael ei brosesu gan y Pennaeth Busnes.

**4.3.** **(Mater 2) – Nodwyd** y bydd yr eitem hon yn cael ei thrafod o dan eitem agenda 5.

**4.4.** **(Mater 3) –** Mae'r eitem hon yn parhau gyda LlC ar hyn o bryd.

**4.5.** **(Mater 4) –** Bydd staff y Comisiwn yn cael arddangosiad o'r porth ddydd Gwener a bydd profion terfynol yn cael eu cynnal yr wythnos nesaf. Disgwylir y bydd y porth yn barod rhwng canol a diwedd mis Ebrill 2023.

**4.6.** **(Mater 5) –** Nid yw LlC wedi gwneud cynnydd ar y canllawiau.

**4.7.** **(Mater 6) –** Mae LlC wedi sefydlu Bwrdd Cyflawni Diwygio Strategol i gefnogi Diwygio'r Senedd a bydd y Comisiwn yn cael ei gynrychioli gan y Prif Weithredwr. Cynhelir y cyfarfod cyntaf yfory.

**4.8.** **(Mater 7) –** Mae'r Comisiwn yn aros am fanylion gan LlC o hyd. Gofynnodd y Cadeirydd i restr o'r manylion sy'n weddill gael ei hanfon ati, ynghyd â gwybodaeth gan BT am raddfeydd amser cysylltu. Bydd y Cadeirydd yn anfon y wybodaeth ymlaen at Lisa ac yn holi pryd y bydd y Comisiwn yn derbyn y wybodaeth.

**4.9.** **(Mater 8) –** Cynhaliwyd panel tendr i asesu cyflwyniadau ar gyfer y tendr ymchwil. Rhoddwyd contract i ORS (Opinion Research Services). Derbyniwyd Dogfen Gychwyn a phan fydd cytundeb, bydd bwrdd yn cael ei sefydlu gyda'r Comisiwn, LlC, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a'r IRP. Darparodd ORS y tendr gorau yn gyffredinol a bodlonodd y safonau sy'n ofynnol fel y'u hamlinellir yn y Ddogfen Fanyleb.

**4.10.** **Gweithredu:** Y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a'r Pennaeth Busnes i anfon rhestr o fanylion llety sy'n weddill at y Cadeirydd, ynghyd â gwybodaeth gan BT am raddfeydd amser cysylltu. Y Cadeirydd i anfon y wybodaeth ymlaen at Lisa a holi pryd y bydd y Comisiwn yn derbyn y wybodaeth.

## 5. Adroddiad Cynnydd Arolwg

**5.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 14 Mawrth 2023 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**5.2.** **Nodwyd** bod y Gofrestr Risg newydd a ystyriwyd yn y Cyfarfod Uwch Reolwyr wedi'i hatodi i eitem 5.2. **Nodwyd** y bydd y Comisiwn yn diweddaru'r gofrestr wrth i'r arolygon fynd rhagddynt.

**5.3.** **Nodwyd** bod yr ymgynghoriad ynglŷn ag Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg wedi dechrau ac y bydd yn gorffen ar 28 Mawrth. Bydd y Papur Opsiynau ar gyfer yr arolwg yn cael ei ystyried yng nghyfarfod mis Mai a'r Adroddiad Cynigion Drafft yng nghyfarfod mis Mehefin.

**5.4.** Bydd cyfarfodydd â Gweithgor y Cyngor a chynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned ynglŷn ag Arolwg Cymunedol Caerffili yn cael eu cynnal yr wythnos hon. Bydd yr ymgynghoriad yn agor ar 24 Mawrth ac yn cau ar 18 Mai. Bydd y Papur Opsiynau'n cael ei ystyried yng nghyfarfod mis Mehefin a'r Adroddiad Cynigion Drafft yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

**5.5.** Disgwylir y bydd yr Arolygon Cymunedol ar gyfer Ceredigion a Sir Benfro yn dechrau ym mis Mehefin.

**5.6.** **Cytunwyd** y bydd y Comisiynydd newydd yn arwain Arolwg Cymunedol Sir Benfro.

**5.7.** Rhoddodd Dianne Bevan ddiweddariad byr ar Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg hyd yma. Roedd y cyfarfodydd cychwynnol â Gweithgor Cyngor Bro Morgannwg a chynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned yn llwyddiannus. Mae'r cynrychiolaethau a gafwyd hyd yma wedi cael eu prosesu. **Nodwyd** nad oedd pob Cyngor Tref a Chymuned wedi cyflwyno ymateb i'r arolwg hyd yma. Mae cyfarfod i drafod opsiynau wedi'i drefnu ar gyfer 19 Ebrill.

**5.8.** Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cyhoeddi adroddiad ar yr Arolwg Cymunedol a bydd yn trafod ei gynnwys yn y cyfarfod Cyswllt Cymunedol yfory. **Nodwyd** bod nifer o gynrychiolaethau diweddar yn ymateb i'r adroddiad hwn.

**6. Adroddiad ar Gyllideb 2022-23**

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 22 Mawrth 2023 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** a **chymeradwywyd** y gyllideb hyd at ddiwedd mis Chwefror 2023.

**6.2.** **Nododd** a **chymeradwyodd** yr aelodau'r newidiadau i gategorïau'r gyllideb i fynd i'r afael â rhywfaint o orwariant amcangyfrifedig.

**6.3.** **Nodwyd** bod £53,201 o danwariant ar ddiwedd mis Chwefror, ac y byddai gan y Comisiwn danwariant amcangyfrifedig o £64,000 ar ddiwedd y flwyddyn. **Nodwyd** y byddai tanwariant CFfDLC yn cael ei ddefnyddio i dalu'n rhannol am yr ymarfer ymchwil ac y byddai'r gweddill yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn newydd.

**6.4.** **Nodwyd** y byddai'r Comisiwn yn derbyn tua £4,000 gan yr IRP i ymgymryd â gwaith Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

**6.5.** **Nodwyd** y bydd yr adroddiad ar gyllideb ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Mai.

**6.6.** **Awgrymwyd** bod y categori Dŵr Potel yn y gyllideb yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r categori'n iawn oherwydd bod y Comisiwn wedi prynu Peiriant Dŵr Eco y llynedd.

**6.7.** **Cytunwyd** y dylai'r Rheolwr Cyllid ystyried lleihau'r manylion yn yr Adroddiad ar y Gyllideb ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn trwy adrodd ar amrywiadau arwyddocaol yn unig.

**6.8.** **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i ystyried lleihau'r manylion yn yr Adroddiad ar y Gyllideb ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn.

**7. Rheoli Risg**

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 8 Mawrth 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**7.2.** **Nodwyd** na wnaed unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn y cyfarfod diwethaf. Nid oedd y Comisiwn o'r farn bod angen gwneud unrhyw newidiadau ychwanegol i'r gofrestr risg.

**8. Adroddiad ar Gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023**

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 9 Mawrth 2023 gan y Rheolwr Cyllid a **nododd** y Comisiwn yr eitemau a ystyriwyd yng nghyfarfod yr ARAC.

**8.2.** **Nodwyd** bod yr ARAC wedi argymell bod y Comisiwn yn cynnwys eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol ar gyfer adroddiadau diweddaru ar y flaenraglen waith. Hefyd, cynigiodd y Pwyllgor fod Polisi Cwynion y Comisiwn yn cael ei ddiwygio i nodi y dylai cwynion a wneir yn erbyn Cadeirydd y Comisiwn gael eu hatgyfeirio i Ddirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Noddi Llywodraeth Cymru. Trafododd y Comisiwn y ddau argymhelliad a **chytunodd** arnynt.

**8.3.** **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i ychwanegu adroddiadau diweddaru ar y flaenraglen waith fel eitem agenda sefydlog ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn a diwygio'r Polisi Cwynion.

**9. Adroddiad Blynyddol Cadeirydd yr ARAC 2022- 23**

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 7 Mawrth 2023 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys.

**9.2.** Cydnabu'r Cadeirydd rôl yr ARAC wrth lywodraethu'n effeithiol a chraffu'n gadarn ar raglen waith y Comisiwn.

**9.3.** **Cytunwyd** y dylai ymarferion Archwilio Manwl fod yn un o'r eitemau cyntaf ar agenda cyfarfodydd yr ARAC er mwyn sicrhau bod digon o amser i'w trafod.

**9.4.** **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i sicrhau bod ymarferion Archwilio Manwl yn un o'r eitemau cyntaf ar agenda cyfarfodydd yr ARAC yn y dyfodol.

**10. Calendr Digwyddiadau**

**10.1.** **Nododd** y Comisiwn y Calendr.

**11. Unrhyw Fater Arall Perthnasol**

**11.1.** Nid oedd unrhyw fater arall.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 24 Mai 2023**